

Clytwaith o Ddarpariaeth

Sut i ddiwallu anghenion dioddefwyr a goroeswyr ledled Cymru a Lloegr

Cydnabyddiaethau

Diolch i'r miloedd o ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig a gyfrannodd at yr ymchwil hwn, a channoedd o wasanaethau cymorth cam-drin domestig arbenigol a chyrrff comisiynu. Diolch arbennig i'r rhai a roddodd fyfyrddodau manwl ar eu profiadau wrth gael mynediad at gymorth drwy gyfweiliadau a grwpiau ffocws, ac am eich cyngor a'ch argymhellion ar gyfer sut i wella'r ymateb i gam-drin domestig.

Ni fyddai hyn wedi bod yn bosib heb gefnogaeth sefydliadau cam-drin domestig 'gan ac ar gyfer' arbenigol, a hwylusodd ein hymgysylltiad â dioddefwyr a goroeswyr. Rhaid diolch yn arbennig i Imkaan, Us Too ac Action for Real Change, y Divas, Respect, Sign Health, The Naz a Matt Foundation, Kanlungan, Sign Health, CHADD a Barnardo's.

Diolch i TONIC am eu gwaith ym maes codio a glanhau data a gasglwyd drwy arolygon, a rhaid diolch hefyd i Lindsay Hodgson o Catch Impact am ei chefnogaeth amhrisiadwy, ei chyngor a'i dadansoddiad cymhleth o ddata.

'Mae'n loteri cod post: mae'r ardal lle'r ydych yn byw yn penderfynu p'un ai y cewch wasanaethau cam-drin domestig da ai peidio.'

Cyflwyniad

Mae dioddefwyr a goroeswyr wedi ysgwyddo baich y 'loteri cod post' yn yr ymateb i gam-drin domestig yn rhy hir. Wedi'u gorfodi i lywio clytwaith cymhleth o wasanaethau sydd, er gwaethaf ymdrechion aruthrol, yn ei chael hi'n anodd bodloni'r galw cynyddol wrth i ni wella ein cydnabyddiaeth a'n hymateb i argyfwng iechyd cyhoeddus cam-drin domestig. Er bod yn rhaid i'r cyfrifoldeb am ddod â cham-drin domestig i ben orwedd gyda'r rhai sy'n cyflawni camdriniaeth, rhaid i ni gydnabod yn y cyfamser y dioddefodd dros 2.3 miliwn o bobl gam-drin domestig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, y mae angen mynediad at gymorth a chefnogaeth arnynt.

Yn syml, nid yw'r gefnogaeth arbenigol y mae ei hangen ar ddiodefwyr a goroeswyr i ddod o hyd i ddiogelwch, ac i ymdopi ac adfer o'u cam-drin, yn gallu ateb y galw hwn. Mae hyn wedi'i ddwysáu ar gyfer dioddefwyr a goroeswyr o gymunedau lleiafrifol, sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf i gefnogaeth, gyda sefydliadau arbenigol 'gan ac ar gyfer' yn fwyfwy colli ariannu, er mai nhw sydd yn y sefyllfa orau i ddiwallu eu hanghenion.

Sefydlwyd y Comisiynydd Cam-drin Domestig drwy'r Ddeddf Cam-drin Domestig fel llais annibynnol i gynyddu ymwybyddiaeth o gam-drin domestig, i sefyll gyda dioddefwyr a goroeswyr, ac i ddwyn llywodraeth leol a chenedlaethol i gyfrif am eu hymateb i gam-drin domestig. Un o brif flaenoriaethau'r Comisiynydd, felly, oedd deall yn well pa gefnogaeth yr oedd dioddefwyr a goroeswyr ei heisiau, a mapio darparu'r gefnogaeth hon ledled Cymru a Lloegr. Clywsom gan dros 4,000 o ddiodefwyr a goroeswyr, mwy na 500 o ddarparwyr gwasanaethau a thros 150 o gomisiynwyr lleol yn ein hymdrechion i wneud hynny. Cipolwg yn unig ar y wybodaeth a gawsom yw'r crynodeb hwn, ac fe'i cyhoeddir ochr yn ochr ag adroddiad polisi llawn ac adroddiad technegol.

Mae'r crynodeb hwn yn nodi canfyddiadau allweddol yr ymchwil hwnnw, yn ogystal ag argymhellion y Comisiynydd o ran sut y gallem drawsnewid argaeledd y cymorth sy'n newid bywydau ac sy'n achub bywydau, y mae angen mor fawr amdano. Nid yw'n amhosib. Rydym wedi gweld enghreifftiau o ymarfer gwyb, a chyda'r ewylllys ac arweinyddiaeth gywir, gellir gwireddu'r argymhellion hyn. Rydym yn galw ar Lywodraeth Genedlaethol, comisiynwyr lleol, gwasanaethau cyhoeddus a darparwyr gwasanaethau i dalu sylw a chydweithio i ddiwallu anghenion diodefwyr a goroeswyr, a sicrhau y gall unrhyw un gael mynediad at y cymorth a'r gefnogaeth y mae eu hangen arnynt, ni waeth pwy ydyn nhw neu ble maen nhw'n byw.

Canfyddiadau Allweddol


Anghenion dioddefwyr a goroeswyr ac effaith gwasanaethau cymorth

- Mae gwasanaethau arbenigol yn effeithiol wrth alluogi dioddefwyr a goroeswyr i deimlo'n fwy diogel a chyda mwy o reolaeth dros eu bywyd yn dilyn camdriniaeth.**

'Ni fyddwn i yma hebddyn nhw.'

Mae dioddefwyr a goroeswyr yn ceisio cymorth a chefnogaeth arbenigol am eu bod yn effeithiol. Roedd gwahaniaeth sylweddol yn y canlyniadau i unigolion a oedd wedi gallu cyrchu gwasanaethau cymorth o'i gymharu â'r rhai a fethodd gwneud hynny. O'r rhai a fynegodd barn, dywedodd 67% o ddioddefwyr a goroeswyr a gyrchodd gwasanaethau cymorth eu bod bellach yn teimlo'n fwy diogel, o'i gymharu â 45% o oroeswyr nad oedd wedi; roedd 73% a oedd wedi cael mynediad at gymorth yn teimlo bod mwy o reolaeth ganddynt dros eu bywyd, o'i gymharu â 50% a fethodd gwneud hynny (Ffigur 1). Dywedodd goroeswyr wrthym am wahaniaethau diriaethol yn eu bywyd dydd i ddydd o ganlyniad i gael cefnogaeth, gan gynnwys teimlo'n fwy hyderus, diogel, a gallu cynllunio ar gyfer eu dyfodol mewn ffordd a oedd yn amhosib o'r blaen.

Ffigur 1: Y ganran o ymatebwyr a oedd yn teimlo'n fwy diogel a chyda mwy o reolaeth na phan geision nhw chwilio am gymorth y tro cyntaf, yn ôl a oedden nhw wedi cael cymorth.



2. **Mae angen amrywiaeth o fathau o gymorth a chefnogaeth ar ddioddefwyr a goroeswyr i'w helpu i ddod o hyd i ddiogelwch ac i ymdopi ac adfer wedi cam-drin.** Roedd y rhan fwyaf o ddioddefwyr a goroeswyr eisïau rhyw fath o gefnogaeth yn y gymuned, a chyfuniad o gefnogaeth ymarferol, megis cyngor llinell gymorth, neu gefnogaeth eiriolaeth neu achosion un i un, a chefnogaeth therapiwtig tymor hwy, megis cwnsela neu gymorth iechyd meddwl. Mae Ffigur 2 isod yn dangos canran y dioddefwyr a'r goroeswyr a oedd eisïau gwahanol fathau o gefnogaeth, gan gynnwys arwydd a fyddai cefnogaeth o'r fath fel arfer yn cael ei darparu gan Eiriolwr Trais Domestig Annibynnol ai peidio. Mae hyn er mwyn dangos yr ystod o gefnogaeth y mae ei hangen, gan ymgorffori, ond heb fod yn gyfyngedig i, eiriolaeth.


Ffigur 2: Canran yr ymatebwyr a oedd eisïau cefnogaeth ar gyfer cam-drin domestig yn ystod y tair blynedd flaenorol, yn ôl y math o ymyrraeth.

Gwyrdd = a gwmpesir fel arfer gan rôl IDVA

Oren = gallai fod yn rhan o rôl IDVA, os caiff ei gomisiynu i wneud hynny¹

Glas = ddim yn rhan o rôl IDVA


¹ Wrth ddarllen y siart hon (a Ffigur 4 isod), mae'n werth nodi beth allai rôl IDVA neu Eiriolwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA) fod wrth ddarparu cefnogaeth mewn Llys Teulu neu Droseddol. Gall IDVA ac ISVA ddarparu cefnogaeth emosiynol ac ymarferol cyn, yn ystod ac ar ôl achosion cyfraith troseddol a theuluol. Fodd bynnag, ni ddylid rhoi IDVA ac ISVA mewn sefyllfa o orfod darparu cyngor cyfreithiol, am nad ydynt yn gymwys i wneud hynny. Dim ond cyfreithwyr all roi cyngor ar y gyfraith ac opsiynau cyfreithiol sy'n benodol i achos goroeswyr, ac mae rôl IDVA/ISVA yn wahanol iawn i rôl cyfreithiwr.



Roedd rhai gwahaniaethau mewn awydd am wasanaethau penodol ar draws grwpiau demograffig. Roedd y gwahaniaethau mwyaf nodedig rhwng dynion a menywod o ran eisiau mynediad at raglenni newid ymddygiad eu cam-drinwyr (74% a 47% yn y drefn honno), a chefnogaeth drwy'r Llys Teulu (83% a 66% yn y drefn honno), a rhwng dioddefwyr a goroeswyr anabl ac nad ydynt yn anabl mewn awydd am gymorth iechyd meddwl (88% a 67% yn y drefn honno). Roedd dioddefwyr a goroeswyr Du yn fwy tebygol na dioddefwyr a goroeswyr o grwpiau ethnig eraill i fod eisiau lloches (59%), yn enwedig o'i gymharu â dioddefwyr a goroeswyr Gwyn (25%). Mae hyn hefyd yn cyfateb i ymatebwyr Du yn fwy tebygol o fod wedi'u lleoli yn Llundain, sef y rhanbarth â'r awydd mwyaf am loches, gyda 33% o'r ymatebwyr o Lundain eisiau lloches, o'i gymharu â 28% yn genedlaethol.

3. **Mae'r rhan fwyaf o ddiodefwyr a goroeswyr o gymunedau lleiafrifol eisiau cefnogaeth a ddarperir 'gan ac ar gyfer' eu cymuned eu hunain.** Mae hyn am fod sefydliadau arbenigol 'gan ac ar gyfer' yn gallu deall cyd-destun a chymhlethdod camdriniaeth i oroeswyr lleiafrifol, a meithrin yr ymddiriedaeth sy'n hanfodol i asesu risg yn effeithiol a darparu'r gefnogaeth gywir. Roedd 68% o oroeswyr Du a lleiafrifol, 68% o oroeswyr LHDT+, 55% o oroeswyr anabl, ac 16 o 62 o oroeswyr Byddar am gael mynediad at sefydliad arbenigol 'gan ac ar gyfer' i ddarparu'r help yr oedd ei angen arnynt. Wrth edrych ar bobl draws yn benodol, roedd cyfran llawer uwch na'r ymatebwyr LHDT+ cyffredinol eisiau mynediad at sefydliad arbenigol 'gan ac ar gyfer' – gyda 21 o 23 o ddiodefwyr a goroeswyr traws yn dweud eu bod eisiau hyn.
4. **Mae hyn am fod sefydliadau arbenigol 'gan ac ar gyfer' yn llawer mwy effeithiol wrth gefnogi diodefwyr a goroeswyr lleiafrifol na mathau eraill o wasanaethau.** Mae effaith gwasanaethau arbenigol 'gan ac ar gyfer' yn glir. Tystiolaethodd ein cyfweiliadau â'r diodefwyr a'r goroeswyr mwyaf ymylol eu bod eisoes yn wynebu anghydraddoldeb strwythurol a'r rhwystrau mwyaf i gefnogaeth. Roeddem yn gallu cymharu'r canlyniadau i ddiodefwyr a goroeswyr oedd wedi cael mynediad at sefydliad arbenigol 'gan ac ar gyfer' gyda'r rhai a gyrchodd math arall o gefnogaeth, ac yna gyda'r rhai na gafodd cefnogaeth o gwbl. Mae'r canfyddiadau'n amlwg. O oroeswyr Du a lleiafrifol, roedd 78% o'r rhai a oedd wedi cyrchu gwasanaeth 'gan ac ar gyfer' yn teimlo'n fwy diogel, o'i gymharu â 48% a oedd wedi cyrchu math arall o wasanaeth, a 30% nad oedd wedi cyrchu unrhyw gefnogaeth o gwbl (Ffigur 3). Mae hyn yn cynrychioli gwahaniaeth o 48 pwynt canran rhwng cael mynediad at gefnogaeth arbenigol 'gan ac ar gyfer' a dim cefnogaeth.

Ffigur 3: Canran y goroeswyr Du a lleiafrifol a oedd yn teimlo'n fwy diogel a chyda mwy o reolaeth na phan geision nhw chwilio am gymorth y tro cyntaf, yn ôl math o wasanaeth a gyrchwyd.



Gwelir patrwm tebyg ar gyfer grwpiau lleiafrifol eraill a ymatebodd i'n harolwg – yn arbennig LHDT+ a Byddar, a goroeswyr anabl, ond ni ellir adrodd â sicrwydd oherwydd meintiau sampl bach. ² Mae'r diffyg maint sampl cadarn i gymharu goroeswyr LHDT+, Byddar neu anabl a oedd wedi cael mynediad at wasanaeth 'gan ac ar gyfer' gyda gwasanaethau eraill ei hun yn nodedig, ac yn datgelu prinder y gwasanaethau hyn ledled Cymru a Lloegr.


- Mae annibyniaeth gwasanaethau yn hanfodol i feithrin ymddiriedaeth, ac fe'i gwerthfawrogir yn fawr gan ddioddefwyr a goroeswyr sy'n cael mynediad at gefnogaeth.** Dywedodd goroeswyr wrthym am eu hofnau ynghylch gwasanaethau statudol – yn enwedig y gwasanaethau cymdeithasol a'r Llys Teulu – a pha mor bwysig oedd eu bod yn teimlo eu bod wedi'u gwahanu a'u hamddiffyn rhag y cyrff hyn yn eu hymgysylltiad â chefnogaeth arbenigol.

Pa gefnogaeth oedd dioddefwyr a goroeswyr yn gallu cael mynediad ati?

- Ar y cyfan, nid oedd y rhan fwyaf o ddioddefwyr yn gallu cael mynediad at y gefnogaeth yr oeddent i heisiau.** Ac eithrio cyngor llinell gymorth (lle'r oedd 64% yn gallu cael mynediad ato a oedd ei eisiau) a chefnogaeth un i un megis gweithiwr achos neu Eiriolwr Trais Domestig Annibynnol (IDVA) (55%), dim ond lleiafrif o oroeswyr oedd yn gallu cael mynediad at y math o gefnogaeth yr oeddent ei heisiau. Adlewyrchwyd hyn gan wybodaeth a gafwyd gan wasanaethau, a ddywedodd wrthym mai dim ond traean o'r atgyfeiriadau a gawsont wnaeth gael cefnogaeth yn y pendraw.

² Roedd maint samplau goroeswyr LHDT+, Byddar ac anabl a gyrchodd gymorth arbenigol 'gan ac ar gyfer' yn rhy fach i adrodd â sicrwydd, ond mae gwybodaeth a dderbyniwyd yn nodi patrwm tebyg iawn, gyda sefydliadau arbenigol 'gan ac ar gyfer' yn llawer mwy effeithiol wrth gefnogi goroeswyr i deimlo'n ddiogel a chyda mwy o reolaeth dros eu bywyd.

Ffigur 4: Ymateb i'r cwestiwn 'Pa mor hawdd oedd hi i gael cymorth?', yn ôl ardal ddaearyddol



7. Roedd tystiolaeth glir o amrywiadau yn ôl ardal ddaearyddol, gan ddangos bodolaeth 'loteri cod post' o ran mynediad at fathau penodol o gymorth.

Adlewyrchwyd hyn hefyd yn y cyllid a ddarparwyd gan gomisiynwyr lleol – gyda bron pob gwasanaeth yn y gymuned yn cael ei ariannu ar sail gofynion preswyl. Yn bryderus, roedd bron i chwarter o'r gwasanaethau lleol a ariennir gan gomisiynwyr lleol ar gyfer unigolion a oedd yn byw, yn gweithio neu'n astudio yn yr ardal leol yn unig. O ystyried union natur cymorth lleol, ac angen dioddefwyr a goroeswyr i ddianc i ardal newydd, mae hyn yn bryderus iawn.


Roedd y gwahaniaeth mwyaf yng ngallu dioddefwyr a goroeswyr i gael mynediad at gymorth cwnsela yr oeddent ei eisiau – gyda gwahaniaeth o 21 pwynt canran rhwng yr ardal uchaf (58% yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr) a'r ardal isaf (37% yng Nghymru). Roedd amrywiad hefyd mewn mynediad at ofal iechyd meddwl, gyda 47% o oroeswyr yn gallu cael mynediad ato yn y Gogledd-ddwyrain o'i gymharu â 31% yn y De-orllewin. Roedd gwahaniaeth o 16 pwynt canran ar gyfer eiriolaeth neu gefnogaeth un i un rhwng y 66% o oroeswyr yn y gogledd-ddwyrain a oedd yn gallu cael mynediad atynt o'i gymharu â 50% yn y de-ddwyrain; ac roedd gwahaniaeth o 11 pwynt canran o ran cefnogaeth drwy Lys Teulu rhwng y 42% o bobl yn Swydd Efrog a'r Humber a'i cafodd a 31% yn Llundain neu Ddwyrain Lloegr. O ran ymyriadau newid ymddygiad, dywedodd 16% o oroeswyr yn y Gogledd-ddwyrain wrthym fod eu drwgweithredwr yn gallu cael gafael ar gymorth i newid ymddygiad, o'i gymharu â 3% yng Nghymru.

Ffigur 5: Canran y dioddefwyr a'r goroeswyr a oedd yn gallu cael cefnogaeth, o'r rhai a oedd eisiau hynny

Gwyrdd = cymorth fel arfer yn cael ei ddarparu gan IDVA

Oren = cymorth a ellid ei ddarparu gan IDVA, os comisiynir i wneud hynny

Glas = cymorth fel arfer ddim yn cael ei ddarparu gan IDVA



Dywedodd tystiolaeth gan ddioddefwyr a goroeswyr lleiafrifol eu bod yn ei chael hi'n hynod anodd cael mynediad at y cymorth yr oeddent ei eisiau. Yn aml, dim ond pan oeddent yn gallu ymgysylltu â sefydliadau 'gan ac ar gyfer' y gallent adnabod a chael y cymorth yr oedd ei angen arnynt. Mae diffyg enfawr yn narpariaeth gwasanaethau o'r fath ledled Cymru a Lloegr, fodd bynnag, gyda'r mwyafrif o ddioddefwyr a goroeswyr oedd am gael mynediad at wasanaethau 'gan ac ar gyfer' yn methu.

51% yn unig o oroeswyr Du a lleiafrifoedd a oedd eisiau mynediad at arbenigwyr 'gan ac ar gyfer' a oedd yn gallu gwneud hynny. Gwnaeth 19% o oroeswyr LHDT+ a oedd eisiau cymorth arbenigol 'gan ac ar gyfer' ei dderbyn, ac i oroeswyr anabl, dim ond 14 o'r 190 o bobl a oedd am gael mynediad at sefydliad arbenigol 'gan ac ar gyfer' oedd yn gallu (7%). I oroeswyr Byddar, dim ond 2 o'r 30 o bobl oedd am gael cymorth arbenigol 'gan ac ar gyfer' oedd yn gallu ei gael.


Pwysleisiodd goroeswyr ag anabledau dysgu yn arbennig y rhwystrau wrth geisio cymorth, a diffyg dealltwriaeth o'u profiadau o gamdriniaeth gan ddarparwyr gwasanaethau.

8. Cafodd dynion anawsterau wrth gael cymorth a chefnogaeth hefyd, gydag 82% yn dweud bod mynediad at help yn anodd neu'n anodd iawn. Roedd anghyfartaledd nodedig rhwng cyfran y sefydliadau a gynigiodd rhyw fath o wasanaeth a oedd yn hygyrch i ddynion (75%) a'r hyn a ddywedodd dynion wrthym am eu profiadau o geisio gofyn am gymorth, gyda llawer yn dweud wrthym ei fod yn ymddangos bod y gwasanaethau yn eu hardal ar gyfer menywod yn unig. *Dywedodd un goroeswr wrthym, 'Doeddwn i ddim yn gallu dod o hyd i wasanaethau gwrywaidd yn unig, a ches i ddim help pan siaradais â gwasanaethau benywaidd yn unig yn gofyn am gyngor. Gwnaeth un person hyd yn oed ymddiheuro a dweud eu bod nhw'n sylweddoli bod angen cefnogaeth arnaf, ond nad oedd yn gwybod am unman oedd yn ei darparu.'* O'r sefydliadau hynny a atebodd y cwestiwn am bwy roeddent yn darparu gwasanaethau ar eu cyfer, roedd 25% yn diffinio'u hunain yn sefydliadau 'menywod yn unig'; 2% yn rhai 'dynion yn unig'; 28% yn 'gymysgedd, ond gwasanaethau un rhyw/rhywedd'; 37% ddim yn benodol o ran rhywedd; a 10% yn gymysgedd o fannau rhyw/rhywedd ar wahân a ddim yn benodol o ran rhywedd.³

9. Yn yr un modd, roedd yn ymddangos bod gwahaniaeth sylweddol rhwng cyfran y sefydliadau a ddywedodd eu bod yn darparu cefnogaeth arbenigol i blant sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin domestig yn y cartref (85%) a'r 29% o ddiodefwyr a goroeswyr a ddywedodd wrthym eu bod yn gallu cael cefnogaeth i'w plant. Hyd yn oed yn cyfrif am y 43% o ddiodefwyr a goroeswyr nad oedd yn gallu cael mynediad at unrhyw gefnogaeth o gwbl, mae hyn yn dangos bod angen cynyddu'r gefnogaeth sydd ar gael gan wasanaethau cam-drin domestig arbenigol i blant er mwyn bodloni'r galw (Ffigur 6).

Ffigur 6: Rhieni y cafodd eu plant gefnogaeth, yn ôl ardal ddaearyddol

³ O sampl o 519 o sefydliadau



10. Roedd y gefnogaeth a ddarperir i ddiodefwyr a goroeswyr o gymunedau lleiafrifol yn amrywio, gyda'r gwasanaethau yn lleiaf tebygol o fod â darpariaeth arbenigol ar gyfer diodefwyr a goroeswyr Byddar neu ddiodefwyr a goroeswyr ag anableddau dysgu. Mae Tabl 1 yn nodi canran y sefydliadau a ddywedodd eu bod yn darparu rhyw fath o ddarpariaeth arbenigol ar gyfer gwahanol gymunedau lleiafrifol, gan wasanaethau llety a gwasanaethau yn y gymuned.

Dylid darllen y ffigyrau hyn â gofal. Yn gyntaf, mae ein harolwg o ddiodefwyr a goroeswyr yn dangos anawsterau sefydliadau nad ydynt yn rhai 'gan ac ar gyfer' yn darparu'r gefnogaeth sydd ei hangen ar bobl sydd ar y cyrion a lleiafrifol, ond yn ail, y gallai gwasanaethau fod wedi dehongli 'arbenigedd' mewn ffyrdd ychydig yn wahanol. Er bod diffiniad⁴ wedi'i ddarparu, efallai bod rhai gwasanaethau wedi

⁴ Diffiniwyd 'cymorth arbenigol' fel cefnogaeth a ddarparwyd yn benodol ar gyfer anghenion y diodefwyr a'r goroeswyr hyn, yn hytrach na chymhwysedd. Eglurodd yr arolwg hefyd y dylai cefnogaeth benodol i ddiodefwyr a goroeswyr Byddar neu anabl gyfeirio at gefnogaeth a ddarperir yn benodol i'w profiadau byw, yn hytrach na gofynion hygyrchedd yn unig.

dehongli 'arbenigedd' fel darparu hyfforddiant arbenigol i aelodau staff, o'i gymharu ag eraill a fyddai ond wedi cyfri prosiectau pwrpasol, arbenigol neu raglenni sy'n benodol i'r boblogaeth honno.

Mae angen rhagor o ymchwil i ddeall yn well faint o gefnogaeth arbenigol a ddarperir i gymunedau lleiafrifol y tu allan i sefydliadau 'gan ac ar gyfer'.

Serch hynny, mae cymariaethau rhwng grwpiau yn dangos faint o hyder sydd gan wasanaethau wrth gefnogi anghenion penodol gwahanol gymunedau.

Tabl 1: Canran o sefydliadau darparu gwasanaeth sy'n darparu cymorth arbenigol llety ac yn y gymuned i wahanol boblogaethau lleiafrifol.

	Canran o wasanaethau llety sydd â darpariaeth arbenigol ar gyfer y grŵp hwn	Canran o wasanaethau cymunedol sydd â darpariaeth arbenigol ar gyfer y grŵp hwn
Dioddefwyr/goroeswyr du a lleiafrifoedd	57%	54%
Dioddefwyr/goroeswyr byddar	14%	14%
Dioddefwyr/goroeswyr anabl	23%	26%
Dioddefwyr/goroeswyr ag anabledau dysgu, awtistiaeth neu'r ddau	18%	25%
Dioddefwyr/goroeswyr hŷn	25%	33%
Dioddefwyr/goroeswyr LHD (lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol)	23%	32%
Dioddefwyr/goroeswyr traws	22%	24%
Dioddefwyr/goroeswyr sy'n oedolion ifanc	30%	54%

Gofynnwyd hefyd sut y byddai gwasanaethau'n ymateb i atgyfeiriad gan grwpiau bach penodol. Yr opsiynau a roddwyd oedd a fyddent yn derbyn atgyfeiriad ac yn darparu gwasanaeth llawn, neu a fyddent yn cyfeirio neu'n atgyfeirio at sefydliad mwy arbenigol. Gallai gwasanaethau hefyd ddweud a fyddent yn derbyn atgyfeiriad ai peidio yn dibynnu ar ffactorau eraill, megis angen clinigol.

Mae'r canlyniadau'n datgelu gwahaniaethau mewn gallu a hyder gwasanaethau i gefnogi dioddefwyr a goroeswyr o gymunedau lleiafrifol neu sydd ag anghenion ychwanegol. Ar gyfer y rhan fwyaf o wasanaethau, byddai'r rhan fwyaf o oroeswyr â nodweddion gwarchodedig yn cael eu derbyn ac yn cael gwasanaeth llawn (yn hytrach na chael eu cyfeirio neu eu hatgyfeirio ymlaen), ac eithrio goroeswyr traws, lle ar gyfer cymorth llety yn benodol dywedodd ychydig yn llai na hanner (44%) o wasanaethau y gallent ddarparu gwasanaeth llawn.

Tabl 2: Canran o wasanaethau sy'n adrodd y gallent dderbyn atgyfeiriad a darparu gwasanaeth llawn i ddioddefwyr a goroeswyr o boblogaethau lleiafrifol.

Grwpiau	Canran o wasanaethau llety a ddywedodd y byddent yn derbyn atgyfeiriad gan y grŵp hwn ac yn darparu gwasanaeth llawn o fewn eu sefydliad	Canran o wasanaethau cymunedol a ddywedodd y byddent yn derbyn atgyfeiriad gan y grŵp hwn ac yn darparu gwasanaeth llawn o fewn eu sefydliad
Dioddefwyr/goroeswyr byddar	70%	76%
Dioddefwyr/goroeswyr anabl	60%	84%
Dioddefwyr/goroeswyr LHD (lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol)	89%	91%
Dioddefwyr/goroeswyr traws	44%	78%
Dioddefwyr/goroeswyr ag anabledau dysgu, awtistiaeth neu'r ddau	63%	78%

11. Roedd y gefnogaeth hefyd yn amrywio o ran a oedd dioddefwr neu oroeswr yn profi sawl anfantais neu ag anghenion ychwanegol. Gofynnwyd yr un cwestiynau i wasanaethau am sut y byddent yn ymateb i atgyfeiriad gan ddiodeffwr neu oroeswr sy'n profi sawl anfantais – p'un a oeddent wedi creu gwasanaeth arbenigol ar gyfer y grŵp hwn o ddiodeffwr a goroeswr, yn ogystal â sut y byddent yn ymateb i atgyfeiriad yn fwy cyffredinol (lle nad oedd ganddynt ddarpariaeth arbenigol).

Tabl 3: Canran o wasanaethau cymorth llety a chymunedol sy'n gallu darparu cymorth arbenigol i ddiodeffwr a goroeswr sy'n profi sawl anfantais

Goroeswyr yn profi sawl anfantais neu ag anghenion ychwanegol	Canran o wasanaethau llety sydd â gwasanaeth arbenigol ar gyfer y grŵp hwn	Canran o wasanaethau llety a fyddai'n derbyn atgyfeiriad ac yn darparu gwasanaeth llawn ar gyfer y grŵp hwn	Canran o wasanaethau cymunedol sydd â darpariaeth arbenigol ar gyfer y grŵp hwn	Canran o wasanaethau cymunedol a fyddai'n derbyn atgyfeiriad ac yn darparu gwasanaeth llawn ar gyfer y grŵp hwn
Dioddefwyr/goroeswyr sy'n profi digartrefedd ⁵	61%	83%	49%	83%

⁵ Efallai bod dealltwriaeth o'r grŵp o 'ddiodeffwr a goroeswr sy'n profi digartrefedd' wedi amrywio rhwng sefydliadau a ymatebodd i'n harolwg, sy'n gwneud y canfyddiadau hyn yn aneglur. Efallai bod gwasanaethau wedi ymateb am gefnogaeth i ddiodeffwr a goroeswr sy'n ddiartref oherwydd cam-drin domestig (a fyddai, drwy ddiffiniad, bron i gyd yn ddefnyddwyr gwasanaethau llety), neu'n canolbwyntio fel arall ar unigolion a oedd yn profi digartrefedd ar y stryd cyn hynny.

Dioddefwyr/goroeswyr sydd â hanes o droseddu	25%	31%	30%	66%
Dioddefwyr/goroeswyr ag anghenion iechyd meddwl uchel	39%	32%	51%	63%
Dioddefwyr/goroeswyr ag anghenion sy'n ymwneud ag alcohol	40%	40%	38%	66%
Dioddefwyr/goroeswyr ag anghenion sy'n ymwneud â sylweddau arall	38%	39%	38%	66%


12. Roedd bylchau hefyd yng ngallu gwasanaethau i roi cymorth i bobl Dim

Hawl i Gael Arian Cyhoeddus (NRPF). Roedd gwasanaethau llety yn arbennig yn ei chael hi'n anodd darparu cymorth i oroeswyr mudol gyda NRPF, ond yr hyn oedd yn arbennig o bryderus oedd y ffaith bod bron i 15% o wasanaethau yn y gymuned wedi dweud na fyddent yn derbyn atgyfeiriad ac yn darparu gwasanaeth llawn i rywun NRPF ar sail eu statws NRPF. O ystyried nad oes gan fynediad at arian cyhoeddus unrhyw ddylanwad ar y gallu i gael cymorth yn y gymuned, mae hyn yn peri cryn bryder.

Sefydliadau sy'n darparu cymorth cam-drin domestig ar draws Cymru a Lloegr


13. Cyflwynir gwasanaethau o ystod o wahanol fathau a meintiau o sefydliad, gydag oddeutu hanner y gwasanaethau cymunedol a bron i ddau draean o wasanaethau llety yn cael eu darparu gan sefydliadau cam-drin domestig arbenigol a/neu Drais yn Erbyn Menywod a Merched. Roedd mathau eraill o sefydliadau'n cynnwys sefydliadau arbenigol 'gan ac ar gyfer', sefydliadau â chylch gwaith ehangach (megis y rhai sy'n cefnogi dioddefwyr a goroeswyr mathau eraill o droseddau), a sefydliadau yn y sector cyhoeddus, lle daethpwyd â gwasanaethau cymorth yn fewnol.

Ffigur 7: Cymharu'r mathau o sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cymunedol a llety.



14. Mae gan y rhan fwyaf o sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cam-drin domestig (61%) incwm blynyddol o lai na £500,000. Gwasanaethau arbenigol 'gan ac ar gyfer' oedd y mwyaf tebygol o fod yn llawer llai, ac roedd sefydliadau bach iawn ag incwm blynyddol o lai na £100,000 yn llai tebygol o ddarparu gwasanaethau llety.

Ffigur 8: Cymharu incwm blynyddol gwasanaethau cymorth cam-drin domestig cymunedol a llety




Trefniant ariannu presennol ar gyfer gwasanaethau cymorth cam-drin domestig

'Mae gan y gwasanaethau ôl-groniad o waith a diffyg staff. Dwi wedi bod yn aros am gwnsela ers bron i wyth mis.'

15. Mae angen chwistrelliad sylweddol o gyllid hirdymor er mwyn i wasanaethau fodloni'r galw am gymorth i oroeswyr. Roedd dioddefwyr a goroeswyr yn dweud wrthym yn gyson am eu trafferthion o ran cael cymorth a chefnogaeth, gyda dim ond 35% yn dweud eu bod yn gweld cael mynediad at help yn 'hawdd' neu'n 'hawdd iawn'.⁶ Dywedodd y gwasanaethau wrthym eu bod yn ei chael hi'n anodd bodloni'r galw, a'u bod yn gwneud cais yn gyson am ffynonellau newydd o gyllid er mwyn goroesi. Dywedodd 34% o'r gwasanaethau wrthym eu bod yn cynnal gwasanaethau heb unrhyw gyllid penodol, a 27% eu bod wedi gorfod rhoi'r gorau i wasanaethau yn gyfan gwbl oherwydd diffyg cyllid. Daw hyn ar adeg o alw cynyddol, ac mae dioddefwyr a goroeswyr yn parhau i estyn allan am gefnogaeth yn dilyn pandemig Covid-19, ac wrth i ni geisio, yn ddigon cywir, rhoi mwy o sylw i gam-drin domestig ac annog dioddefwyr a goroeswyr i gael mynediad at gymorth.


Ffigur 9: Cyfran o sefydliadau a fu'n rhaid rhoi'r gorau i wasanaethau oherwydd problemau ariannu.

⁶ Mae hyn yn debygol o fod yn or-amcangyfrif sylweddol, o gofio bod y goroeswyr a'i cafodd anoddaf cael mynediad at wasanaethau neu a oedd yn wynebu'r rhwystrau mwyaf hefyd yn debygol o fod wedi cael trafferth cael mynediad i'n harolwg.




16. **Mae gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol yn dibynnu ar gyllid gan ystod eang o arianwyr statudol ac anstatudol.** Mae gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol annibynnol yn gallu denu buddsoddiad i ardal leol drwy godi arian a chyllid gan arianwyr anstatudol. Mae gallu sefydliadau annibynnol i wahodd cyllid gan arianwyr eraill hefyd yn caniatáu iddynt ddysgu o brosiectau mwy arloesol, a ariennir yn aml gan ymddiriedolaethau elusennol, a chymhwyso'r dysgu hwn i'r gwasanaethau craidd sy'n fwy tebygol o gael eu hariannu gan gyrrff statudol.

Ffigur 10: Prif ffynonellau cyllid ar gyfer gwasanaethau cymorth cymunedol cam-drin domestig, yn ôl math o sefydliad




17. Yn gyffredinol, derbyniodd y rhan fwyaf o sefydliadau (80%) gyllid statudol fel eu prif ffynhonnell incwm, yn bennaf gan Awdurdodau Lleol neu Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. Derbyniodd 12% arall o sefydliadau rywffaint o gyllid statudol (ond nid fel eu prif ffynhonnell ariannol), a chafodd 7% o sefydliadau ddim arian statudol o gwbl. Mae hyn yn amrywio yn ôl maint incwm (Ffigur 11), pa ryw neu rywedd y darparwyd cymorth ar eu cyfer (Ffigur 12), a math o sefydliad (Ffigur 13).

Ffigur 11: Ffynonellau arian ar gyfer sefydliadau gwasanaeth cymorth cam-drin domestig, yn ôl maint incwm blynyddol




Ffigur 12: Ffynonellau arian ar gyfer sefydliadau gwasanaeth cymorth cam-drin domestig, yn ôl rhyw neu rywedd y rhai sy'n cael cymorth⁷
 Gwasanaethau merched yn unig N= 109; Cymysgedd o wasanaethau (ond gwasanaethau un rhyw/rhywedd) N= 126; Gwasanaethau nad ydynt yn benodol o ran rhywedd N= 142; Cymysgedd o wasanaethau un rhyw/rhywedd a gwasanaethau nad ydynt yn benodol o ran rhywedd N= 80.

⁷ Mae'n werth nodi bod 8 o wasanaethau dynion yn unig wedi ymateb i'r cwestiwn hwn, a chyllid statudol oedd prif ffynhonnell incwm 100% ohonynt, ond ni chafodd y gwasanaethau hyn eu cynnwys o fewn y graff oherwydd maint bach y sampl.



Ffigur 13: Ffynonellau arian i sefydliadau gwasanaeth cymorth cam-drin domestig, yn ôl math o sefydliad




Er ei bod yn bryderus gweld faint yn llai tebygol yr oedd sefydliadau 'gan ac ar gyfer' o gael cyllid statudol, mae hefyd yn dangos ymhellach y gwerth sylweddol

a ddaw yn eu sgil drwy dynnu buddsoddiad i mewn o'r llall i ardal leol. Mae'n amlwg, fodd bynnag, nad yw hyn yn ddigon o ystyried yr anawsterau ariannol sylweddol y mae sefydliadau 'gan ac ar gyfer' yn eu hwynebu a'r diffyg gwasanaethau cenedlaethol sydd ar gael.


- 18. Mae'r cyllid yn aml yn y tymor byr ac yn ansicr, sy'n golygu bod gwasanaethau'n ei chael hi'n anodd adeiladu capasiti a chynllunio ar gyfer y dyfodol, gan effeithio ar effeithlonrwydd, darpariaeth gwasanaethau, ynghyd â recriwtio a chadw staff.** Roedd y rhan fwyaf o ddarparwyr gwasanaethau (70%) yn dibynnu ar brif ffynhonnell arian a sicrhawyd am lai na thair blynedd, gyda dros chwarter y sefydliadau'n dibynnu ar brif ffynhonnell arian a barhaodd am lai na blwyddyn (Ffigwr 14). Roedd hyn yn arbennig o aciwt i sefydliadau 'gan ac ar gyfer'.

Ffigur 14: Hyd amser y prif ffynonellau cyllid ar gyfer gwasanaethau cymorth cam-drin domestig, yn ôl math o sefydliad.



19. **Er eu bod yn fwy effeithiol wrth gefnogi dioddefwyr a goroeswyr lleiafrifol, mae diffyg enbyd o gefnogaeth arbenigol 'gan ac ar gyfer' ledled Cymru a Lloegr, gyda sefydliadau'n cael eu tanariannu'n ddifrifol ac yn anghymesur.** Mae sefydliadau 'gan ac ar gyfer' chwe gwaith yn fwy tebygol o beidio â derbyn unrhyw gyllid statudol na sefydliadau VAWG neu gam-drin domestig arbenigol, ac yn llawer mwy tebygol o fod yn darparu cymorth heb unrhyw gyllid penodol, fel y dangosir yn Ffigur 15.

Ffigur 15: Canran y gwasanaethau cymorth cam-drin domestig sy'n darparu gwasanaethau heb unrhyw gyllid penodol, yn ôl math o sefydliad.



Nid yw'n syndod eu bod hefyd yn fwy tebygol o fod wedi gorfod rhoi'r gorau i wasanaethau oherwydd diffyg cyllid – gyda 27% o sefydliadau cam-drin domestig neu VAWG yn gorfod rhoi'r gorau i wasanaethau, o'i gymharu â 45% o sefydliadau 'gan ac ar gyfer'.


20. **Roedd sefydliadau llai yn llawer mwy tebygol na sefydliadau mwy o faint o beidio â derbyn arian statudol o gwbl.** Mae hyn yn gorgyffwrdd â sefydliadau arbenigol 'gan ac ar gyfer' a oedd yn fwy tebygol o gael incwm blynyddol llai. Hyd yn oed wrth edrych ar sefydliadau nad ydynt yn rhai 'gan ac ar gyfer', fodd bynnag, roedd y rhai ag incwm blynyddol o lai na £100,000 dair gwaith yn fwy tebygol o beidio â derbyn cyllid statudol na sefydliadau ychydig yn fwy gydag incwm blynyddol o £100,000-£250,000.

Pa weithwyr proffesiynol oedd y cyntaf i ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin ddweud wrthynt, a sut daethon nhw i wybod am wasanaethau?


21. **Rydym yn deall rôl feirniadol ffrindiau a theulu, y mae dioddefwyr a goroeswyr yn fwyaf tebygol o ddweud wrthynt am y gamdriniaeth y maent yn ei phrofi,** ac yn cydnabod yr angen i fagu hyder ymhlith ffrindiau a theulu wrth ymateb i ddatgeliadau a chefnogi eu hanwyliaid. Roeddem hefyd eisiau gwybod mwy am ba weithwyr proffesiynol y dywedodd dioddefwyr a goroeswyr wrthynt am gam-drin domestig, a phwy y dywedont wrthynt gyntaf.

22. Roedd dioddefwyr a goroeswyr fwyaf tebygol o ddweud wrth weithiwr iechyd proffesiynol am eu cam-drin cyn gweithwyr proffesiynol eraill, ac yna'r heddlu. Gofynnwyd i dioddefwyr a goroeswyr am bwy y dywedont wrthynt gyntaf am y gamdriniaeth roeddent yn ei phrofi, os gwnaethant ddweud wrth weithiwr proffesiynol. Roedd amrywiaeth o weithwyr proffesiynol y dywedodd dioddefwyr a goroeswyr wrthynt gyntaf, gan gynrychioli pwysigrwydd dealltwriaeth dda o, ac ymateb i, gam-drin domestig o bob rhan o wahanol asiantaethau statudol (Ffigur 16). Roedd rhai amrywiadau hefyd o ran pwy wnaeth dioddefwyr a goroeswyr ddweud wrthynt yn ôl rhywedd (Ffigur 17) ac ethnigrwydd (Ffigur 18), ond iechyd a phlisma oedd y gweithwyr proffesiynol mwyaf tebygol o glywed gyntaf ymhlith gweithwyr proffesiynol.


Ffigur 16: Proffesiynau a sefydliadau y dywedodd goroeswyr cam-drin domestig eu bod wedi dweud wrthynt gyntaf



Ffigur 17: Proffesiynau a sefydliadau y dywedodd goroeswyr cam-drin domestig eu bod wedi dweud wrthynt gyntaf, yn ôl rhywedd y goroeswyr



Ffigur 18: Proffesiynau a sefydliadau y dywedodd goroeswyr cam-drin domestig eu bod wedi dweud wrthynt gyntaf, yn ôl ethnigrwydd y goroeswyr



23. Roedd ymestyn allan rhagweithiol gan wasanaethau cam-drin domestig a chan wasanaethau cyhoeddus ehangach yn hanfodol wrth alluogi dioddefwyr a goroeswyr i gael cymorth. Dim ond traean o ddiodefwyr a goroeswyr gafodd wybod am wasanaethau o'u hymchwil eu hunain, gyda'r rhan fwyaf yn clywed am gefnogaeth gan gyfuniad o wasanaethau cyhoeddus, ffrindiau, teulu, cydweithwyr neu sefydliadau eraill. Dywedodd llawer o ddiodefwyr a goroeswyr na allent ystyried sut i gael cymorth, naill ai oherwydd eu bod wedi dioddef gormod o drawma, bod ofn arnynt, neu nad oeddent yn cydnabod bod yr hyn a oedd yn digwydd iddynt yn gamdriniaeth, na bod angen help arnynt. Ymddengys, felly, bod y rhai a oedd yn gallu cael mynediad at help wedi gwneud hynny oherwydd bod gwasanaethau'n ymgysylltu'n rhagweithiol â nhw, a gweithwyr proffesiynol wedi nodi cam-drin domestig yn effeithiol pan ddaethon nhw ar ei draws. Gwnaeth hyn alluogi darpariaeth cymorth neu atgyfeirio at wasanaethau arbenigol yn ôl yr angen.

24. Mae'r Ymateb Cymunedol Cydgysylltiedig yn hanfodol, felly, mewn ymateb effeithiol i gam-drin domestig, ac i allu dioddefwyr a goroeswyr i gael mynediad at y cymorth a'r gefnogaeth y mae eu hangen arnynt. Gall gwasanaethau iechyd yn benodol chwarae a rôl bwysig; er bod 44% o ddioddefwyr a goroeswyr wedi dweud wrth weithiwr iechyd proffesiynol am eu cam-drin yn y lle cyntaf, dim ond 19% glywodd am gymorth cam-drin domestig yn eu hardal gan iechyd.

Argymhellion

Mae angen cyllid ychwanegol i fodloni'r galw

Argymhelliad 1: Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gyflwyno dyletswydd ar gomisiynwyr lleol i gydweithio wrth gomisiynu gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol, cynnal asesiadau anghenion strategol ar y cyd, a dylai'r ddyletswydd hon fod ar y cyd â dyletswydd newydd ar lywodraeth ganolog i ddarparu cyllid i ddiwallu'r angen hwn yn ddigonol. Dylai hyn wneud defnydd o'r cyfle a roddwyd gan y Bil Dioddefwyr sydd ar ddod, neu os na, nodi modd deddfwriaethol yn y dyfodol ar gyfer dyletswydd o'r fath. Bydd yn arbennig o hanfodol bod anghenion a nodwyd yn lleol yn cynnwys anghenion plant a goroeswyr mudol, gan gynnwys y rhai heb hawl i gael arian cyhoeddus.

Argymhelliad 2: O ystyried cyfyngiadau'r dystiolaeth bresennol, dylai'r Llywodraeth, gan gynnwys Trysorlys Ei Fawrhydi, ddatblygu'r dystiolaeth a'r data sy'n angenrheidiol i alluogi dadansoddiad cost a budd o ddarparu cymorth i ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig, gan gynnwys plant. Dylai hyn amcangyfrif y gost o ddarparu cymorth i'r holl ddioddefwyr a goroeswyr sydd ei angen, a'r holl fanteision y byddai gwneud hynny yn eu cael yn y gymdeithas.

Argymhelliad 3: Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Adran Iechyd, gan weithio'n agos gyda'r sector cam-drin domestig arbenigol a chyrrff proffesiynol perthnasol, ddatblygu cynlluniau i fynd i'r afael â pha mor brin yw'r cwnsela arbenigol a chymorth therapiwtig sydd ar gael i ddioddefwyr a goroeswyr, gan gynnwys plant.

Argymhelliad 4: Dylai'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau gynnwys yr effaith ar wasanaethau yn y gymuned wrth werthuso Rhan 4 y Ddeddf Cam-drin Domestig.

Argymhelliad 5: Dylai'r Adran Addysg, gan weithio gyda'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau; y Swyddfa Gartref; a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, ddatblygu strategaeth genedlaethol i fynd i'r afael â'r diffyg cymorth arbenigol sydd ar gael i blant sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin domestig. Dylent weithio'n agos gyda'r sectorau cam-drin domestig arbenigol, VAWG a 'gan ac ar gyfer', yn ogystal â'r sector plant, er mwyn sicrhau bod cyllid ar gael i ddiwallu anghenion plant sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin domestig.

Argymhelliad 6: Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder chwarae rhan gryfach wrth fonitro'r galw ar wasanaethau cam-drin domestig arbenigol yn genedlaethol, er mwyn asesu

Ilwyddiant y Strategaeth Ariannu Dioddefwyr a'r Cynllun Cam-drin Domestig. Mae'r Strategaeth Ariannu Dioddefwyr yn ymrwymo i weledigaeth lle 'dylai'r cymorth cywir fod ar gael i bawb sy'n dioddef trosedd, pan fydd ei angen arnynt', ac mae'r Cynllun Cam-drin Domestig i 'helpu'r dioddefwyr a goroeswyr sydd wedi dianc o gam-drin domestig yn teimlo y gallant ddychwelyd i fywyd arferol, gyda chefnogaeth ar gyfer eu hanghenion iechyd, emosiynol, economaidd a chymdeithasol.'

Argymhelliad 7: Dylai cyrff comisiynu, ar lefel leol a chenedlaethol, gynyddu darpariaeth ymyriadau newid ymddygiad ar gyfer drwgweithredwyr cam-drin domestig. Dylid cyfeirio cyllid tuag at ymyriadau sydd wedi'u gwerthuso'n gadarn, yn seiliedig ar dystiolaeth ac o ansawdd uchel, gan ystyried anghenion dioddefwyr a goroeswyr ar bob cam.

Argymhelliad 8: Yn unol â'r ymrwymiad a wnaed yn y Cynllun Cam-drin Domestig, dylai'r Llywodraeth nodi sut y byddant yn defnyddio canlyniadau'r ymarfer mapio hwn i nodi bylchau ac i dargedu cyllid yn well i wasanaethau lleol.

Dylai'r llywodraeth genedlaethol chwarae rhan fwy wrth ariannu gwasanaethau 'gan ac ar gyfer'

Argymhelliad 9: Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, gyda'r Swyddfa Gartref a'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, sefydlu cronfa gwerth £263m dros 3 blynedd i gefnogi gwasanaethau 'gan ac ar gyfer' arbenigol.⁸ Dylai hyn gynnwys rhaglen hirdymor o adeiladu capasiti, i wella darpariaeth a lledaeniad daearyddol gwasanaethau 'gan ac ar gyfer' arbenigol ar draws Cymru a Lloegr, a chaniatáu i'r sectorau arbenigol hyn dyfu'n gynaliadwy.

Argymhelliad 10: Dylai'r Swyddfa Gartref, sy'n cydlynu ar draws y Llywodraeth (yn enwedig gyda'r Adran Addysg; yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau; y Weinyddiaeth Gyfiawnder; a'r Adran Gwaith a Phensiynau), ddatblygu strategaeth ar gyfer gwella dealltwriaeth o anghenion croestoriadol dioddefwyr a goroeswyr ar gyfer staff rheng flaen y sector cyhoeddus. Dylai hyn gwmpasu anghenion penodol dioddefwyr a goroeswyr gyda nodweddion gwarchoddedig a sawl anfantais, a dylid ei datblygu mewn partneriaeth â sefydliadau arbenigol 'gan ac ar gyfer'. Dylid rhoi blaenoriaeth i weithwyr proffesiynol sydd fwyaf tebygol o ryngweithio â dioddefwyr a goroeswyr, a dylid monitro canlyniadau unrhyw strategaeth yn agos, gan gynnwys drwy fonitro nodweddion gwarchoddedig dioddefwyr a goroeswyr a nodwyd gan asiantaethau statudol a'u cyfeirio at wasanaethau neu gyrff arbenigol megis MARAC.

Argymhelliad 11: Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref ariannu rhaglen benodol o adeiladu capasiti ar y cyd i helpu i feithrin partneriaethau rhwng gwasanaethau 'gan ac ar gyfer' arbenigol a gwasanaethau nad ydynt yn rhai 'gan ac ar gyfer'. Dylai hyn gynnwys monitro sut y gwneir atgyfeiriadau rhwng

⁸ Manylir ar y dadansoddiad o gostau yng [nghyflwyniad Adolygiad Gwariant](#) y Comisiynydd Cam-drin Domestig ym mis Tachwedd 2021.

gwasanaethau, a dosbarthu cyllid gan gomisiynwyr lleol. Dylai weithio i alluogi gwasanaethau nad ydynt yn rhai 'gan ac ar gyfer' i adnabod a deall yn well anghenion croestoriadol dioddefwyr a goroeswyr sydd â nodweddion gwarchoddedig neu sy'n wynebu sawl anfantais, ac i weithio'n well gyda'r sefydliad 'gan ac ar gyfer' mwyaf priodol.

Mae angen mwy i gefnogi dioddefwyr a goroeswyr sy'n wynebu sawl anfantais

Argymhelliad 12: Dylai'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau gynnal dadansoddiad anghenion o ddarpariaeth gwasanaethau llety ar gyfer dioddefwyr a goroeswyr a allai wynebu sawl anfantais. Yna, dylid defnyddio hyn i sefydlu rhaglen wedi'i hariannu o gapasiti ac adeiladu gallu, gan wneud defnydd o enghreifftiau o arfer gorau sydd eisoes ar waith. Dylai'r dadansoddiad anghenion hwn ddefnyddio canfyddiadau'r ymchwil hwn, o'u gwerthusiad eu hunain o Ran 4 y Ddeddf Cam-drin Domestig, a gweithio'n agos gyda'r sector cam-drin domestig arbenigol.

Argymhelliad 13: Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gynnal asesiad anghenion o gefnogaeth sydd ar gael i ddioddefwyr a goroeswyr sydd â hanes o droseddu, a chymryd camau i fynd i'r afael â'r diffyg cefnogaeth sydd ar gael i'r grŵp hwn o ddioddefwyr a goroeswyr. Dylai hyn gryfhau'r ymrwymiadau a wnaed eisoes yn y Strategaeth Troseddwyr Benywaidd a chysylltu â gwaith i gydlynu ac adeiladu capasiti o fewn Canolfannau Menywod, yn ogystal â darpariaeth sydd eisoes wedi'i darparu o fewn carchardai.

Argymhelliad 14: Dylai'r Swyddfa Gartref annog deiliaid Dyletswydd Atal Trais Difrifol i sicrhau y cynhwysir cam-drin domestig mewn gwaith i fynd i'r afael ag ystod o ffactorau risg uchel trais difrifol mewn mannau cyhoeddus. Dylai hyn fod ochr yn ochr â chydnyddiaeth bod cam-drin domestig ei hun yn fath o drais difrifol, fel y'i diffinnir gan Ddeddf Plismona, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022.

Dylai comisiynwyr lleol ariannu gwasanaethau i ddarparu'r ystod lawn o waith sydd ei angen, gan gynnwys i farchnata eu gwasanaethau'n rhagweithiol

Argymhelliad 15: Dylai'r Comisiynwyr ariannu gwasanaethau gan ddefnyddio model adfer costau llawn, gan gynnwys mynediad at gyfieithwyr, cymorth cyfathrebu a goruchwyliaeth glinigol. Dylai unrhyw ganllawiau statudol neu anstatudol a roir gan y Llywodraeth adlewyrchu'r disgwyliad hwn.

Argymhelliad 16: Dylai comisiynwyr sicrhau yr ariennir gwasanaethau i gynyddu ymwybyddiaeth o'u gwasanaethau yn rhagweithiol a chynnal allgymorth. Dylai gwefannau comisiynwyr lleol hefyd fod yn glir ynghylch pa wasanaethau sydd ar gael yn eu hardal nhw, ac i bwy.

Dylai gwasanaethau sydd ar gael i ddynion fod yn glir y gall dynion gael mynediad atynt

Argymhelliad 17: Dylai comisiynwyr lleol, a gwasanaethau a gomisiynwyd, nodi'n glir ar eu gwefannau pwy all gael mynediad at eu gwasanaethau, a bod yn eglur ynghylch a yw gwasanaethau'n gynhwysol. Gwyddwn fod cam-drin domestig yn effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched, a bod gwasanaethau i fenywod yn unig yn hanfodol wrth gefnogi menywod a merched i gyrraedd diogelwch a gwella. Lle cynigir gwasanaethau cynhwysol i bob rhywedd, fodd bynnag, dylai hyn fod yn glir i ddioddefwyr a goroeswyr a allai fod eisiau cael mynediad at eu gwasanaethau.

Mae dal i fod angen allgymorth a chynyddu ymwybyddiaeth o gam-drin domestig, ac o ba wasanaethau sydd ar gael, yn enwedig i ddioddefwyr a goroeswyr ag anabledau dysgu

Argymhelliad 18: Dylai'r Swyddfa Gartref ystyried sut y gellir cysylltu ymgyrchoedd cyfathrebu cenedlaethol ag ymgyrchoedd lleol, gan gynnwys cynyddu ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael yn lleol.

Argymhelliad 19: Dylai'r Swyddfa Gartref a'r Adran Addysg, gan weithio gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gynnal ymgyrch cynyddu ymwybyddiaeth yn canolbwyntio ar gynyddu ymwybyddiaeth o gam-drin domestig ymhlith pobl ag anabledau dysgu. Dylid datblygu a darparu hyn ar y cyd â phobl ag anabledau dysgu, a chyda'r sector arbenigol 'gan ac ar gyfer'.

Rhaid i asiantaethau statudol wella o ran adnabod ac ymateb i gam-drin domestig – er mwyn cryfhau'r Ymateb Cymunedol Cydgysylltiedig

Argymhelliad 20: Dylai'r Swyddfa Gartref weithio gyda Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig i ddatblygu fframwaith y cytunwyd arno ar gyfer asesu anghenion hyfforddiant cyrff sector cyhoeddus o ran cam-drin domestig, a dylai Adrannau'r Llywodraeth gynnal asesiad anghenion hyfforddiant o broffesiynau blaenoriaeth fel y nodwyd gan yr adroddiad mapio hwn. Dylid rhoi blaenoriaeth i weithwyr proffesiynol sydd fwyaf tebygol o gael gwybod am gam-drin domestig, yn enwedig staff gofal iechyd, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr proffesiynol cyfreithiol neu lysoedd, a staff yr Adran Gwaith a Phensiynau. Dylai hyn ymgorffori gwaith presennol sydd ar y gweill yn Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig i fapio'r ddarpariaeth hyfforddiant sydd eisoes yn bodoli ar draws asiantaethau statudol.

Argymhelliad 21: Dylai comisiynwyr lleol weithio gydag asiantaethau a gwasanaethau statudol yn eu hardal i ddatblygu llwybrau cydgysylltiedig a di-dor o gefnogaeth i ddioddefwyr a goroeswyr sydd ag anghenion lluosog, yn enwedig i'r rhai sy'n wynebu sawl anfantais. Dylid hefyd alinio hyn yn agos â gwaith i gyflwyno 'dyletswydd i gydweithio' uchelgeisiol drwy'r Bil Dioddefwyr, a'r Ddyletswydd Atal Trais Difrifol newydd.

Argymhelliad 22: Dylai cyrff ariannu ystyried yr angen am gefnogaeth well drwy weithwyr achos un i un ar gyfer dioddefwyr a goroeswyr na fyddai efallai'n cyrraedd y trothwy ar gyfer IDVA, er mwyn cynnal achosion a chydlynu'r ystod o gefnogaeth a

gwasanaethau y mae eu hangen ar ddiodefwyr a goroeswyr. Yn benodol, dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ystyried hyn yng nghyd-destun cynigion i ffurfioli'r rolau IDVA ac ISVA drwy'r Bil Dioddefwyr sydd ar ddod.

Rhaid i'r sector gofal iechyd gydnabod ei sefyllfa unigryw o ymddiriedaeth, a gwella dealltwriaeth gweithwyr proffesiynol o gam-drin domestig er mwyn adnabod cam-drin yn gynharach a chefnogi goroeswyr i gael mynediad at gymorth arbenigol

Argymhelliad 23: Dylai'r Adran Iechyd, gyda GIG Lloegr, ddatblygu rhaglen waith uchelgeisiol i wella ymwybyddiaeth ac ymateb gweithwyr iechyd proffesiynol i gam-drin domestig o fewn lleoliadau gofal iechyd, ac i feithrin partneriaethau rhwng gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol a gwasanaethau iechyd. Dylai hyn adeiladu ar yr arfer gorau fel y nodir yn y Pecyn Cymorth Braenaru, ac enghreifftiau eraill o weithio agos rhwng darparwyr gofal iechyd a gwasanaethau cam-drin domestig.

Argymhelliad 24: Dylai'r Adran Iechyd sicrhau bod ymyriadau iechyd meddwl amserol a phriodol ar gael i gefnogi anghenion iechyd meddwl diodefwyr a goroeswyr cam-drin domestig.

Argymhelliad 25: Dylai gwasanaethau iechyd gofnodi atgyfeiriadau maent yn eu gwneud i MARAC er mwyn monitro perfformiad ac ymateb iechyd ar lefel Ymddiriedolaeth. Dylai'r data hyn fod ar gael i'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Grŵp Rhyngweinidogol VAWG a'r Comisiynydd Cam-drin Domestig mewn adroddiad blynyddol.

Ddylai'r comisiynwyr ddod â gwasanaethau yn fewnol o dan amgylchiadau eithriadol yn unig

Argymhelliad 26: Dylai'r Strategaeth Ariannu Dioddefwyr, a chanllawiau cenedlaethol i gomisiynwyr ar gomisiynu gwasanaethau, gan nodi'n glir pwysigrwydd gwasanaethau annibynnol mewn unrhyw ganllawiau statudol neu anstatudol. Lle daw gwasanaethau yn fewnol, dylid rhannu'r wybodaeth hon â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder; y Swyddfa Gartref; yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau; a chyda Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig, i ddeall pam ac i fonitro newidiadau dros amser.

Argymhellion ar gyfer ymchwil pellach

Er bod yr ymchwil hwn yn cymryd camau mawr yn ein dealltwriaeth o ddarpariaeth gwasanaethau cam-drin domestig ledled Cymru a Lloegr, mae hefyd yn tynnu sylw at rai bylchau ychwanegol yn ein dealltwriaeth. Mae awgrymiadau manylach ar gyfer ymchwil pellach i'w gweld yn ein Hadroddiad Technegol, ond mae rhai materion allweddol sy'n haeddu archwilio pellach:

- 1. Mae angen i ni ddeall yn well profiadau diodefwyr a goroeswyr lleiafrifol ac ar yr ymylon sy'n cael mynediad at wasanaethau 'nad ydynt**

yn rhai gan ac ar gyfer'. Mae ein hymchwil yn dangos manteision clir i gael mynediad at wasanaethau 'gan ac ar gyfer' o'i gymharu â chael mynediad at wasanaethau nad ydynt yn rhai 'gan ac ar gyfer'. Fodd bynnag, nid oeddem yn gallu gwahaniaethu rhwng canlyniadau dioddefwyr a goroeswyr sy'n cael mynediad at sefydliadau DA/VAWG arbenigol, sefydliadau â chylch gwaith ehangach, neu wasanaethau a ddaeth yn fewnol gan gyrff sector cyhoeddus.

2. **Er bod effaith cael mynediad at gefnogaeth yn gyffredinol yn glir, byddai manteision i ddealltwriaeth fanylach o ganlyniadau gwahanol i ddiodefwyr a goroeswyr yn dibynnu ar ba fath o gefnogaeth yr oeddent wedi'i chyrchu.** Yn yr adroddiad hwn roeddem yn gallu dangos y gwahaniaethau rhwng goroeswyr oedd wedi cael mynediad at wasanaethau a'r rhai nad oedd wedi gwneud hynny. Mae angen dadansoddiad pellach i ddeall sut mae'r gwahaniaethau hyn yn newid yn dibynnu ar ba fath o ymyrraeth a gafwyd, megis cwnsela, cefnogaeth IDVA, lloches neu ddarpariaeth arall.
3. **Mae angen archwiliad pellach o sut mae gwasanaethau arbenigol sydd wedi'u lleoli y tu allan i sefydliadau 'gan ac ar gyfer' yn edrych.** Dengys ein hymchwil fod cyfran gymharol uchel o sefydliadau yn cynnig gwasanaethau arbenigol i grwpiau penodol o ddiodefwyr a goroeswyr. Nid oedd yn glir, fodd bynnag, beth oedd yr arbenigedd dan sylw – gallai amrywio o ddarparu hyfforddiant penodol i ddarparu gwasanaeth pwrpasol, wedi'i deilwra. Mae'r mapio cymorth LHDT+ a gynhaliwyd gan Galop ar ran y Comisiynydd Cam-drin Domestig yn awgrymu amrywiaeth eang mewn dealltwriaeth o 'arbenigedd' ymhlith gwasanaethau. Yn yr un modd, dengys gwaith sydd i'w gyhoeddi cyn hir gan Stay Safe East a Sign Health ar ran y Comisiynydd Cam-drin Domestig ddarlun tebyg ar gyfer gwasanaethau i oroeswyr Byddar ac anabl.
4. **Mae angen mwy o wybodaeth am bwy roedd gwasanaethau cam-drin domestig yn eu cefnogi'n genedlaethol, a pha gefnogaeth a ddarparwyd.** Er i ni holi ynghylch cymhwysedd i gael cefnogaeth, ac am nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd ac yr ymgysylltwyd â nhw, ni wnaethom ofyn am ddemograffeg nac unrhyw ddadansoddiad arall o bwy gafodd gefnogaeth gan wasanaethau cam-drin domestig. Bydd hyn yn hanfodol er mwyn deall y gwahaniaeth rhwng gwasanaethau a oedd yn cynnig gwasanaethau i grwpiau penodol o bobl (megis diodefwyr a goroeswyr anabl, goroeswyr LHDT+, neu ddynion), a'r hyn a ddywedodd goroeswyr wrthym am wasanaethau ddim ar gael yn eu hardal nhw.

Atodiad A: Rhestr Termaw

Diffinnir **dioddefwyr a goroeswyr** fel unrhyw un sydd wedi dioddef cam-drin domestig fel y'i diffinnir gan Ddeddf Cam-drin Domestig 2021. Mae'r Ddeddf yn diffinio cam-drin domestig fel ymddygiad person tuag at berson arall os ydynt ill dau yn 16 oed neu'n hŷn ac wedi'u cysylltu'n bersonol â'i gilydd, ac mae'r ymddygiad yn cynnwys unrhyw un o'r canlynol: cam-drin corfforol neu rywiol; ymddygiad treisgar neu fygythiol; ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol; cam-drin economaidd; cam-drin seicolegol, emosiynol neu arall; ac nid oes ots a yw'r ymddygiad yn cynnwys un digwyddiad neu gwrs ymddygiad. Mae plant hefyd wedi'u cynnwys o fewn y diffiniad hwn, i gydnabod effaith niweidiol cam-drin domestig arnynt, lle maent yn berthynas i rywun dros 16 oed sy'n destun cam-drin domestig.

Mae **Trais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG)** yn cyfeirio at y diffiniad a fabwysiadwyd gan y Llywodraeth o Ddatganiad y Cenhedloedd Unedig (1993) ar ddileu trais yn erbyn menywod i arwain gweithgarwch ar draws holl adrannau'r llywodraeth: "Unrhyw weithred o drais ar sail rhywedd sy'n arwain at, neu'n debygol o arwain at, niwed corfforol, rhywiol, seicolegol neu ddioddefaint i fenywod, gan gynnwys bygythiadau o weithredoedd o'r fath, gorfodaeth, neu amddifadedd mympwyol o ryddid, p'un a yw'n digwydd yn gyhoeddus neu mewn bywyd preifat." Yn ôl y Datganiad, mae trais yn erbyn menywod wedi'i wreiddio yn y cysylltiadau pŵer anghyfartal hanesyddol rhwng menywod a dynion. Mae hefyd yn egluro bod trais yn erbyn menywod yn "un o'r mecanweithiau cymdeithasol pwysig lle mae menywod yn cael eu gorfodi i fod yn israddol i ddynion." Fe'i defnyddir i ddisgrifio trais a cham-drin sy'n digwydd yn anghymesur yn erbyn menywod, sef cam-drin domestig; trais rhywiol; cam-drin 'seiliedig ar anrhydedd', fel y'i gelwir; a stelcio.

Mae **cymunedau lleiafrifol** yn rhai sydd wedi'u harallu, a'u diffinio fel lleiafrifoedd gan y grŵp dominyddol. Gallant wynebu gwahaniaethu strwythurol ar sail nodweddion gwarchoddedig, yn arbennig hil, crefydd, anabled, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth drawsryweddol neu fel rhan o'r gymuned Fyddar. Gall pobl yn y cymunedau â sawl hunaniaeth croestoriadol wynebu hyd yn oed mwy o ymyleiddio a rhwystrau pellach i gael mynediad at gymorth.

Du a lleiafrifoedd – Mae'r termau hyn yn ystyried dull strwythurol o enwi a chyfeirio at gymunedau sy'n profi hiliaeth ac ymyleiddio yn seiliedig ar (canfyddiadau o) hil ac ethnigrwydd, neu maent yn gymunedau sy'n hunan-ddiffinio mewn nifer o ffyrdd y tu allan i gategoriâu o 'wynder'. Mae terminoleg i ddynodi hyn yn ddadleuol, ond rydym wedi dewis Du a lleiafrifoedd yn hytrach nag acronymau sydd wedi'u beirniadu'n eang am mai dyma'r term a ffefrir gan y sector cam-drin domestig i gydnabod amrywiaeth ac ymatal rhag proffilio diwylliannol a hiliol. Rydym yn cydnabod bod yr iaith hon yn gymhleth ac yn bwysig, ac efallai nad dyma fydd y termau a ffefrir mewn blynyddoedd i ddod.

Sawl Anfantais – Mae Against Violence and Abuse yn diffinio sawl anfantais fel wynebu "nifer o anghydraddoldebau croestoriadol, gan gynnwys trais a cham-drin ar sail rhywedd, defnyddio sylweddau, salwch meddwl, digartrefedd, bod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol a chymryd plant."

'Gan ac Ar Gyfer' – Roedd ein hymchwil yn diffinio sefydliadau 'gan ac ar gyfer' fel sefydliadau sy'n cael eu dylunio a'u darparu gan ac ar gyfer pobl sy'n cael eu lleiafrifo (gan gynnwys hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth drawsryweddol, crefydd neu oedran). Bydd y gwasanaethau hyn wedi'u gwreiddio yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, a gallant gynnwys adferiad a chefnogaeth gyfannol a chofleidiol sy'n mynd i'r afael ag ystod lawn o anghenion croestoriadol dioddefwr neu oroeswr, y tu hwnt i gymorth cam-drin domestig yn unig. Gwnaethon ystyried gwasanaethau ar wahân i fenywod sy'n cael eu rhedeg gan fenywod.

Diffiniwyd **'cymorth arbenigol'** fel cefnogaeth a ddarparwyd yn benodol ar gyfer anghenion y dioddefwyr a'r goroeswyr hyn, yn hytrach na chymhwysedd. Eglurodd yr arolwg hefyd y dylai cefnogaeth benodol i ddioddefwyr a goroeswyr Byddar neu anabl gyfeirio at gefnogaeth a ddarperir yn benodol i'w profiadau byw, yn hytrach na gofynion hygyrchedd yn unig.

Ymateb Cymunedol Cydgysylltiedig – Mae Standing Together Against Domestic Abuse yn diffinio'r Ymateb Cymunedol Cydgysylltiedig (CCR) fel "ymateb system gyfan i berson cyfan" sy'n "symud cyfrifoldeb dros ddiogelwch i ffwrdd o oroeswyr unigol i'r gymuned a gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli i'w cefnogi." Mae rhagor o fanylion am CCR ar gael yn eu hadroddiad [In Search of Excellence](#).

Eiriolwr Trais Domestig Annibynnol (IDVA) – Fel y'i diffinnir yng Nghod y Dioddefwyr, mae IDVA yn gweithio gyda dioddefwyr cam-drin domestig i ddeall eu profiadau a'u risg o niwed parhaus. Byddant yn datblygu cynllun diogelwch unigol gyda dioddefwr i sicrhau bod ganddynt bopeth sydd ei angen arnynt i fod yn ddiogel a dechrau ailadeiladu eu bywyd yn rhydd o gamdriniaeth. Gall y cynllun hwn gynnwys cefnogi dioddefwyr i gael mynediad at wasanaethau statudol (megis gwasanaethau gofal iechyd a thai), sy'n cynrychioli eu llais mewn Cynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth, a chael mynediad at wasanaethau gwirfoddol eraill yn eu cymunedau. Mae Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol yn annibynnol o wasanaethau statudol ac yn gallu rhoi gwybodaeth a chyngor perthnasol wedi'i deilwra i'w hanghenion i ddioddefwyr.

Eiriolwr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA) – Fel y'i diffinnir yng Nghod y Dioddefwr, mae Eiriolwr Trais Rhywiol Annibynnol yn gynghorydd sy'n gweithio gyda phobl sydd wedi profi trais rhywiol ac ymosodiad rhywiol, ni waeth a ydynt wedi adrodd amdano i'r heddlu.

Gwasanaethau Llety – Mae'r Ddeddf Cam-drin Domestig (2021) yn diffinio gwasanaethau llety fel "cefnogaeth, mewn perthynas â cham-drin domestig, a ddarperir i ddioddefwyr cam-drin domestig, neu eu plant, sy'n byw mewn llety perthnasol." Mae rheoliadau ar gyfer y Ddeddf yn diffinio llety perthnasol fel "llety sy'n cael ei ddarparu gan awdurdod tai lleol, darparwr preifat sydd wedi'i gofrestru ar gyfer tai cymdeithasol, neu elusen gofrestredig y mae ei hamcanion yn cynnwys darparu cymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig", ac sy'n "llety lloches; llety diogel arbenigol; llety wasgaredig; llety ail gam; neu lety arall a ddynodwyd gan yr awdurdod tai lleol, darparwr cofrestredig preifat tai cymdeithasol neu elusen gofrestredig fel llety brys cam-drin domestig." Efallai nad yw'r llety yn llety gwely a brechwast, ond mae'n bosib y bydd yn rhan o gynllun noddfa.

Cyfeirir at **Wasanaethau Cymunedol** yn yr adroddiad hwn fel gwasanaethau sy'n cael eu darparu i ddiodefwr a goroeswyr yn y gymuned h.y. ddim mewn lleoliad sy'n llety. Gellir ei ddefnyddio fel term ymbarél i ddisgrifio nifer o fathau o ymyrraeth, gan gynnwys eiriolaeth, cwnsela a chefnogaeth therapiwtig, neu ymyriadau newid ymddygiad ar gyfer drwgweithredwyr cam-drin domestig.

Dim Hawl i Gael Arian Cyhoeddus (NRPF) – Ni fydd gan berson unrhyw fodd o gael arian cyhoeddus pan fyddant yn 'ddarostyngedig i reoli mewnfudo', fel y'i diffinnir yn adran 115 Deddf Mewnfudo a Lloches 1999. Ni all person sy'n ddarostyngedig i reolaeth mewnfudo hawlio arian cyhoeddus (budd-daliadau a chymorth tai) oni bai bod eithriad yn berthnasol. Pan fydd gan berson hawl i ddod neu aros sy'n ddarostyngedig i'r amod NRPF, nodir y term 'dim arian cyhoeddus' ar ei drwydded breswyl, vignette clirio mynediad, neu hawlen breswyl biofetrig (BRP).